# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0445(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Hydref 2008

### At Angela Burns:

Yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref, ymgymerais i ysgrifennu atoch ynghylch hynt y gwaith o baratoi'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ddiwylliannol.

Gallaf gadarnhau bod y cynllun wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bod disgwyl iddo gael ei gwblhau yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio Twristiaeth Ddiwylliannol ddiwedd mis Tachwedd.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0454(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Hydref 2008

### At Andrew R.T. Davies:

Mewn Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 1 Hydref, addewais ysgrifennu atoch ynghylch datblygiadau mewn perthynas â'r ymrwymiad yn y ddogfen Cymru'n Un i '[d]datblygu cyfleoedd i ysgolion a cholegau gydweithio â chlybiau chwaraeon lleol a buddsoddi ymhellach mewn hyfforddiant chwaraeon'.

Fel y gwyddoch, y dyhead i greu Cymru sy'n fwy egnïol ac yn fwy iach yw'r prif nod ac er mwyn cyflawni hyn, mae cael gweithlu sy'n meddu ar y cymwysterau priodol yn hanfodol os ydym i lwyddo i gynnig yr holl gyfleoedd sydd eu hangen o ran eu cwmpas a'u hansawdd i gael pobl i fod yn fwy egnïol. Os ydym am lwyddo i annog plant a phobl ifanc i fyw bywydau iach, egnïol bydd ansawdd eu profiadau yn ddibynnol i raddau helaeth ar allu'r hyfforddwr. Mae hyn yn wir hefyd os ydym am gynhyrchu mwy o sêr ym myd chwaraeon dros y blynyddoedd nesaf.

Yr egwyddorion hyn felly sydd wrth wraidd y buddsoddiad o £5 miliwn a wnaed drwy'r Cyngor Chwaraeon yn y Cynllun Hyfforddi ers 2005/06 i greu mwy o hyfforddwyr a gwell hyfforddwyr. Mae canlyniadau'r buddsoddiad hwn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y Cyngor Chwaraeon yn cyflwyno adroddiad i'm swyddogion yn fuan. Fodd bynnag, caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried yn gyntaf yn rhan o adolygiad ehangach i'w gynnal yn ystod y chwe mis nesaf o'r ddarpariaeth sydd yng Nghymru i greu rhagoriaeth ym myd y campau.

Yn y cyfamser, mae'n bwysig nodi'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd yn y maes hwn a phwysleisio mai un elfen yn unig yw hon o'r gwaith cynhwysfawr sydd ar droed i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl ifanc sy'n cwmpasu nifer o'r ymrwymiadau sydd yn y ddogfen Cymru'n Un.

Mae'r rhaglen Campau'r Ddraig ar gyfer disgyblion ysgol rhwng 7 ac 11 oed wedi'i chynnal bellach ers wyth mlynedd ac mae'n cael ei chynnal mewn 95% o ysgolion cynradd. Mae'n parhau i ddatblygu mwy o arweinwyr a hyfforddwyr o blith gwirfoddolwyr i helpu i gyflwyno gweithgareddau mewn ysgolion a chlybiau cymunedol mewn wyth o gampau allweddol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn dangos bod dros 6,600 o arweinwyr ledled Cymru yn helpu i redeg Clybiau Campau'r Ddraig yn ystod amser allgyrsiol (gydag ychydig dros 2,400 ohonynt yn athrawon).

Yn groes i hynny, cynhaliwyd y rhaglen allgyrsiol 5x60 ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ond y mis Medi hwn fe'i hestynnwyd o 56% o ysgolion uwchradd i 96% o ysgolion ledled Cymru. Cafodd hyn effaith fawr ar y niferoedd fu'n cymryd rhan o fewn y grŵp oedran hwn ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd mawr yn y galw am hyfforddwyr â'r cymwysterau addas er mwyn cyflwyno'r amrywiaeth o weithgareddau a nodwyd gan y bobl ifanc yn rhai yr hoffent eu gwneud.

Mae'r ffynonellau cyllido sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd gan y Cyngor Chwaraeon sef y Gist Gymunedol a'r Grantiau Bach yn parhau i gynorthwyo â'r gwaith o gefnogi addysg hyfforddwyr ac mae llawer o gynlluniau yn eu lle hefyd ar hyn o bryd sy'n helpu i ddiwallu'r galw am hyfforddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau rhwng awdurdodau lleol, prifysgolion, colegau ac ysgolion lle bo arweinwyr a hyfforddwyr yn cael eu defnyddio yn rhan o'u rhaglen astudiaeth er mwyn helpu i gyflwyno Campau'r Ddraig a gweithgareddau'r rhaglen 5x60 yn ogystal â gweithgareddau eraill cymunedol eu natur. Bydd yr hyfforddwyr iau yn datblygu ystod eang o sgiliau yn rhan o'r gofynion ar gyfer cyrsiau fel Arweinwyr Chwaraeon y DU, Dug Caeredin neu Fagloriaeth Cymru ac wrth iddynt fynd yn hŷn cânt eu cefnogi i astudio am ddyfarniadau hyfforddi pellach yn rhan o gynllun achredu hyfforddwyr lle gallant weithio yn ffurfiol i awdurdod lleol a datblygu ymhellach eu sgiliau a'u gwybodaeth ac o bosibl fynd yn un o'n huwch hyfforddwyr yn y dyfodol.

Mae yna o hyd rai materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy gan gynnwys gweithredu Fframwaith Hyfforddwyr y DU a ffynonellau cyllido i gefnogi'r gwaith o hyfforddi ein gweithlu o hyfforddwyr gwirfoddol. Mae angen arnom hefyd well system o dracio a defnyddio hyfforddwyr er mwyn sicrhau bod unrhyw fuddsoddi mewn datblygu hyfforddwyr yn rhoi i ni werth am arian. Fodd bynnag, mae'r holl faterion hyn yn cael sylw ar hyn o bryd ac mae fy swyddogion innau a'u cyd-weithwyr yn y Cyngor Chwaraeon yn gweithio gyda'i gilydd i ddelio â hwy.

Yn y pen draw, bydd y Cynllun Gweithredu ar Weithgarwch Corfforol yn nodi ac yn delio â'r materion sy'n ymwneud â hyfforddwyr sydd ynghlwm wrth yr agenda cyfranogi a bydd yr adolygiad sydd i'w wneud o Berfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yn sail i'r gwaith o lunio polisi a strategaethau yn y dyfodol mewn perthynas â'r gofynion hyfforddi ar lefel elît. Rydym felly yn gweithio'n galed fel llywodraeth, gyda'n partneriaid, i barhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu hyfforddwyr a gwella ymhellach y seilwaith sydd ei angen i annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac annog rhagoriaeth yn y maes.

Gobeithiaf y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi o ran egluro'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â datblygu hyfforddwyr yng Nghymru.

## Gwybodaeth ychwanegol at y Ddad Fer a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Hydref 2008

### At Mike German:

Erbyn hyn, gallaf ymateb i'r cwestiwn y gwnaethoch ei ofyn i mi yn ystod y drafodaeth uchod. Mae'r cwestiwn yn disgyn o fewn portffolio Jane Davidson sef y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae hi'n cytuno gyda'r cyngor hwn.

Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 17/98 'Cynllunio Datblygu Carchardai ar gyfer y Dyfodol' a gafodd ei anfon i awdurdodau cynllunio lleol Cymru yn Gylchlythyr sy'n dal mewn bodolaeth. Ar 7 Mehefin 2006, daeth deddfwriaeth sylfaenol newydd a gynhwyswyd yn Rhan 7 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i rym. Prif effaith y ddeddfwriaeth hon oedd rhoi'r Deddfau Cynllunio i'r Goron (sy'n cynnwys Adrannau'r Llywodraeth) ac

sydd nawr, yn gyffredinol, yn gorfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu mewn dull tebyg i ymgeiswyr eraill. Gwnaed rhai trefniadau arbennig ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â materion fel diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn, argyfyngau a gorfodi, yn ogystal â hawliau datblygu newydd sy'n cael eu caniatáu a dosbarthiadau defnydd.

Mae paragraffau 83-85 o'r memorandwm 'Y Goron yn Defnyddio'r Deddfau Cynllunio', sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnig canllawiau ar y polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar ddosbarth defnydd C2A, 'Sefydliadau preswyl diogel'. Mae'r dosbarth defnydd hwn yn cynnwys 'defnyddio fel carchar' felly mae'n bosibl i'r canllawiau hyn fod yn berthnasol wrth ddatblygu carchar newydd hefyd. Cafodd y memorandwm ei gynnwys mewn llythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 7 Mehefin 2006 gyda'r un teitl a gafodd ei anfon at Brif Swyddogion Cynllunio a Swyddogion Parciau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r polisi cenedlaethol, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A o 'Gynlluniau Datblygu Lleol Cymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan y dylai unrhyw awdurdod gysylltu ag adrannau o Lywodraeth y DU os oes agweddau ar y cynllun, neu gynigion i'w ddiwygio neu i'w newid yn effeithio ar eu buddiannau hwy. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cael ei rhestru fel un sefydliad y gellir ymgynghori ag ef a dylid ymgynghori â'r sefydliad ynghylch polisïau sy'n ymwneud â charchardai, (mae'r cyfrifoldebau hynny wedi cael eu rhoi i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder).